

Diweddariad ar yr ymchwiliad i'r gadwyn cyflenwi bwyd sy'n gysylltiedig â listeria

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn arwain yr ymchwiliad i'r gadwyn cyflenwi bwyd i nodi tarddiad y straen o listeria sy'n gysylltiedig â'r achosion diweddard mewn ysbytai gyda chymorth Safonau Bwyd yr Alban ac awdurdodau lleol. Gwnaethom nodi'r cynhyrchion a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r achosion a thynnu'r rhain yn ôl o'r gadwyn fwyd ar yr un diwrnod ag y sefydlwyd y cyswllt. Cafodd y straen hwn ei olrhain yn ôl i gynhyrchwr a dynnodd ei holl gynhyrchion bwyd parod i'w bwyta yn ôl er mwyn bod yn gwbl ofalus. Rydym ni nawr yn cynnal ymchwiliadau pellach i bennu tarddiad y straen listeria.

- Ar hyn o bryd, mae pob achos a gadarnhawyd wedi'i gysylltu â brechdanau The Good Food Chain. Aeth The Good Food Chain ati'n wirfoddol i derfynu'r gwaith o gynhyrchu ar 5 Mehefin a thynnu'r holl gynhyrchion a oedd dal mewn dyddiad yn ôl. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod yr holl unigolion wedi bwyta'r cynhyrchion yr effeithiwyd arnynt mewn ysbytai cyn iddynt gael eu tynnu'n ôl ar 25 Mai 2019. Ni chadarnhawyd unrhyw achosion o listeriosis sy'n gysylltiedig â'r achos hwn mewn pobl y tu allan i ysbytai ac felly mae'r risg i'r cyhoedd yn parhau i fod yn isel.
- Cafodd yr un straen o listeria ei nodi yn un o gynhyrchion cig North Country Cooked Meats, a ddefnyddiwyd gan The Good Food Chain. Fe wnaeth North Country Cooked Meats, a'i ddsbarthwr North Country Quality Foods, roi'r gorau i ddsbarthu'n wirfoddol ar 3 Mehefin, ac mae wedi rhoi'r gorau i gynhyrchu ac wedi tynnu pob cynnyrch parod i'w fwyta yn ôl er mwyn bod yn ofalus. Nid yw'r cynhyrchion a gyflenwyd gan North Country Quality Foods i fusnesau eraill wedi arwain at unrhyw achosion a adroddwyd hyd yn hyn ac mae North Country Cooked Meats a North Country Quality Foods yn parhau i fod ar gau.
- Mae'r ymchwiliad bellach yn canolbwyntio ar nodi tarddiad yr heintiau listeria. Mae'n archwilio cadwyn gyflenwi North Country Cooked Meats ac yn edrych am unrhyw ganfyddiadau hanesyddol o listeria, gan gynnwys y rheiny o fewn terfynau cyfreithiol a ganiateir. Hefyd, bydd profion pellach yn cael eu cynnal ar gynhyrchion ac amgylcheddau i ganfod a oes unrhyw beth yn cyfateb i straen yr achosion.

Yn dilyn gwaith profi a dilysu helaeth gan Gyngor Bwrdeistref Stafford, nid yw The Good Food Chain bellach yn rhan o'r ymchwiliad parhaus i darddiad yr achos. Gyda'r ymchwiliad bellach yn canolbwyntio ar gyflenwyr ymhellach i fyny'r gadwyn fwyd, gall The Good Food Chain ailddechrau cynhyrchu.

Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod iechyd y cyhoedd yn parhau i gael ei ddiogelu, mae set well o fesurau diogelwch bwyd bellach ar waith a bydd yr awdurdod lleol yn parhau i fonitro a goruchwylio'r cwmni'n agos am y tri mis nesaf, gyda phenderfyniad i oruchwylio ymhellach yn cael ei wneud yn dilyn canfyddiadau'r arolygiad. Bydd yn rhaid i'r busnes ailymgeisio am achrediad cyn y gall gyfenwi i'r Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol yn uniongyrchol eto.

Mae'r mesurau hyn yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r busnes wedi'i ddilysu fel busnes sy'n bodloni deddfwriaeth diogelwch bwyd ac yn dilyn arfer gorau ar gyfer gweithgynhyrchu, glanhau a safonau amgylcheddol.
- Mae'r safle wedi'i lanhau'n drylwyr. Yn dilyn swabio amgylcheddol helaeth, rydym ni wedi nodi bod y safle yn glir o ffynonellau posibl o unrhyw straen o Listeria monocytogenes, gan gynnwys straen yr achos penodol hwn.
- Mae'r cynllun peryglon diogelwch bwyd wedi cael ei adolygu a bydd yn parhau i gael ei wirio i wneud yn siŵr ei fod yn addas i'r diben unwaith y bydd y broses gynhyrchu wedi aildechrau.
- Bydd Cyngor Bwrdeistref Stafford yn goruchwyllo'n fanwl gan gynnwys samplu cynnyrch ychwanegol, profion amgylcheddol a dilysu cyflenwadau sy'n dod i mewn yn well.

Meddai Dr Colin Sullivan, Prif Swyddog Gweithredu'r ASB:

"Mae hwn yn ymchwiliad cymhleth, ond rydym ni wedi gweithio i nodi a thynnu'r cynhyrchion sy'n gysylltiedig â'r achosion ysbytai hyn o'r gadwyn fwyd yn gyflym.

"Mae ein hymchwiliadau bellach yn canolbwyntio ar darddiad y straen, ac yn amodol ar wirio a monitro parhaus gan Gyngor Bwrdeistref Stafford, mae cwmni The Good Food Chain bellach yn gallu aildechrau cynhyrchu.

"Bydd y cwmni'n cael ei fonitro'n ofalus i sicrhau bod iechyd y cyhoedd yn parhau i gael ei ddiogelu.

"Rydym ni'n llwyr gydymdeimlo â theuluoedd y rhai a fu farw."

Meddai'r Cyngorydd Jonathan Price, Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd yng Nghyngor Bwrdeistref Stafford:

"Rydym ni wedi gweithio'n ddiflino gyda The Good Food Chain ac rydym ni'n hyderus bod eu prosesau gweithgynhyrchu, eu gweithdrefnau glanhau a'u safonau amgylcheddol yn bodloni'r gofynion yr ydym ni'n eu disgwyl ar gyfer cynhyrchu bwyd parod i'w fwyta.

"Ond nid yw ein gwaith yn gorffen yno, gan mai iechyd y cyhoedd yw ein prif flaenoriaeth.

"Felly, byddwn ni'n parhau i gasglu swabiau amgylcheddol o arwynebau o fewn y busnes, cymryd samplau o fwyd a gweithio gyda The Good Food Chain i sicrhau bod ganddynt fesurau rheoli ar waith i asesu'n drylwyr y rhai sy'n cyflenwi cynhyrchion iddynt"

Mae Iechyd Cyhoeddus Lloegr a Diogelu Iechyd yr Alban yn profi pob sampl diweddar o listeria i wirio a ydynt yn gysylltiedig â'r achos hwn.

I gael rhagor o fanylion, dyma ddiweddariad Iechyd Cyhoeddus Lloegr:

www.gov.uk/government/news/listeria-cases-being-investigated